# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher y 5ed o Fawrth 2025 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Christopher Smoothy (Cadeirydd), Sarah Pask, Iori Saer, Dorian Lewis, Huw James, Wyn Evans, Elgan Williams ac Y Cynghorydd Sir Jean Lewis

**YMDDIHEURIADAU**: dim

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 8fed o Ioanwr 2025 wedi ei dosbarthu cyn y cyfarfod, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:**
Wyn Evans parthed cais Y Cardi Bach a Huw James parthed rhent tir 2025-26

**4: MATERION YN CODI:**
Roedd y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi derbyn ebost parthed y pryderon am y man casglu disgyblion ysgol a oedd yn nodi fod 4 disgybl yn cael eu casglu yno ac nad oedd y cwmni bws wedi codi unrhyw bryderon. Yn dilyn cadarnhad fod mwy na 4 disgybl yn cael eu casglu yno, byddai'r Cynghorydd Sir yn ymateb i'r Cyngor Sir yn gofyn am gyfarfod safle i weld a byddai modd gwella/ehangu y man tynnu mewn i geir y rhieni.
Roedd y Cynghorydd Sir wedi bod yn dilyn i fyny pan nad oedd yr arwyddion a oedd wedi cael eu difrodi wedi eu atgyweirio nac y bin halen Newydd ger Blaendyffryn.
Roedd arwyddion diogewlch wedi cael ei roi o amgylch y tirlithriad ger fferm Bwmper.
Roedd y clerc wedi ebostio'r cyfreithwyr yn dilyn y cyfarfod olaf, ond heb dderbyn ymateb.
Roedd y clerc wedi cyfarfod gyda Cadwch Cymru'n Daclus ar gaeau chwarae Blaenwaun ar y 14eg o Chwefror ac roedd wdi sicrhau mainc wedi ei ailgylchu am ddim ac y byddai'n cael ei gludo yno erbyn diwedd Mis Mawrth.

**5: RHODDION:**
Cafwyd ceisiadau am gymorth ariannol wrth Y Cardi Bach, Eisteddfod Genedlaethol 2026 a Cancer Information & Support Services Ltd. Cytunwyd i roi £250 tuag at Y Cardi Bach a £200 i'r Eisteddfod Genedlaethol gan y byddai'n cael ei gynnal o fewn y dalgylch codi arian.

**6: ARCHWILYDD MEWNOL:**
Cytunwyd i ail-apwyntio Rosemary Davies fel yr Archwilydd Mewnol am 2025-26.

**7: CINIO BLYNYDDOL:**
Cytunwyd i gynnal y Cinio Blynyddol yn Crymych ar y 9fed o Fai. Byddai'r clerc yn gwneud y trefniadau.

**8: RHENT:**
Gadawodd y Cynghorydd Huw James y cyfrafod tra bod yr eitem yma yn cael ei drafod.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd yn unfrydol i godi'r rhent £10 yr erw o £50 yr erw i £60 yr erw. Byddai'r tir a oedd yn cael ei rentu i Maengwyn Hir yn cynnyddu wrth £15 yr erw i £50 yr erw ac y tir i Blaenllain o £10 i £20.

**9: GOHEBIAETH:**

**A** – Roedd Banc Lloyds wedi ysgrifennu yn nodi byddai'r cyfradd llôg yn lleihau.
**B** – Roedd DM Payroll Services wedi cadarnhau byddai ei cytundeb i wneud y gwaith cyflog yn terfyn ar y 1af o Ebrill.
**C** – Roedd y Cynghorydd Sarah Pask wedi cwblhau yn llwyddiannus cwrs hyfforddiant Sgiliau Cadeirydd.
**CH** – Roedd rhestr cyfleoedd grantiau wedi dod i law.

**10: DERBYNIADAU:**
**Llôg - £11.35**

**11: BILIAU:**

| | |
|---|---|
| Liza Jones – Cyflog y Clerc Ionawr & Chwefror | £560.00 |
| Un Llais Cymru – aelodaeth | £90.00 |
| CSC – newid goleuadau stryd | £333.60 |
| D H & J M James – disel am dorri gwair | £80.00 |
| Charles Jackson – strimio cae chwarae | £25.00 (roedd wedi cael ei dalu gan Iori Saer ac felly ad-daliad unoingyrchol i Iori Saer) |
| Dŵr Cymru – dŵr cae chwarae | £6.68 (talwyd gyda d/u) |

Awdurdodwyd i'r anfonebau cael eu talu drwy trosglwyddiad banc.

**12: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £2,151.12 |
| Cyfrif Trysorydd | £6,584.17 |
| **Cyfanswm o** | **£8,746.64** |

**13: CYNLLUNIO:**
Dim

**14: Unrhyw fater arall:**
Codwyd pryderon am tyllau ar yr heol yn Blaenwaun a Passby.
Roedd angen rhoi hysbys ar y wefan yn nodi trafferthion technegol gyda'r Holiadur Cymunedol.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher y 7fed o Fai 2025 am 8:00pm yn Neuadd Gymunedol Llanwinio.**